

WYTHNOS 1

CYFLWYNIAD

CYN Y SGWRS

> Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 5 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.

> Rhowch gyflwyniad byr. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod.

Noswaith dda a chroeso i Darganfod Cristnogaeth.

Wrth i ni ddechrau, hoffwn eich sicrhau:

- Na fydd raid i chi ddarllen yn uchel, gweddio na chanu na gwneud unrhyw beth sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus.
- Na fyddwn yn gofyn am eich rhif ffôn ac yn eich poeni. Os ydych yn penderfynu nad ydych am ddod nôl, rwy'n dal yn falch iawn eich bod wedi rhoi o'ch amser i ddod yr wythnos hon.
- Cewch ofyn unrhyw gwestiwn yr hoffech, neu mae croeso i chi eistedd a gwranddo'n unig.

Dros y deng wythnos nesaf, byddwn yn ystyried rhai cwestiynau anodd:

- Ydy Duw yn bodoli?
- Beth yw ystyr ein bywydau byr?
- I ble'r ydym ni'n mynd?
- Oes modd i ni gael bodlonrwydd a hapusrwydd?
- Pam mae 'na boen a dioddef yn y byd?

Rydym hefyd eisiau treulio amser yn trafod unrhyw gwestiynau sy'n bwysig i chi.

Y SGWRS

> Cyflwynwch ysgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben ysgwrs yw ymdrin â rhagdybiaethau'r cyfranogwyr am Gristnogaeth, dangos bod Cristnogaeth yn "newyddion da" am Iesu Grist (Marc 1:1), a'u herio i ddarganfod beth yw'r "newyddion da" trwy roi amser i ddarllen Efengyl Marc.

Mae'r byd o'n cwmpas yn gwneud i ni ofyn cwestiynau.

Rwy'n cofio gwyllo'r haul yn machlud ar Table Mountain yn Ne Affrica. Dechreuodd rhywfaint o gymylau gau i mewn nes ein bod yn edrych i lawr drwy'r cymylau ar Cape Town. Bydd yr atgof am y machlud hwnnw'n aros yn fy nghof am byth. Roedd mor brydferth, am 15 munud roedd pawb oedd yno gyda mi, gan gynnwys bachgen bach wyth oed, yn ddieiriau.

Efallai y gallwch feddwl am amser lle'r oeddech wedi'ch llethu gan synnwyr o ryfeddod natur. Mae'n gwneud i ni ofyn yn reddfol, "O ble y daw'r cyfan?"

Tybed sut ydych chi'n ateb y cwestiwn hwn? Mae rhai pobl wedi'u hargyhoeddi bod y byd wedi dod i fodolaeth ar hap, ond mae eraill yn meddwl bod ein bydysawd - a phopeth sydd ynddo - wedi'i greu'n fwriadol gan Dduw. Dywedodd Syr James Jeans, y seryddwr enwog o Brydain: "Mae'r bydysawd yn ymddangos fel petai wedi cael ei greu gan Fathemategydd pur." Iddo ef, fel llawer o bobl eraill, mae trefn y ddaear a chysawd yr haul yn cyfeirio at gynllunydd o fri.

Ystyriwch, er enghraifft, y ffaith bod y ddaear ar ogwydd o 23 gradd yn union. Mae gwyddonwyr yn dweud wrthym y byddai'r ddaear yn cael ei gorchuddio'n raddol â chap iâ petai'r ongl honno rywfaint yn wahanol. Mae'n rhaid iddi fod ar 23 gradd yn union i weithio.

Neu beth am yr alaeth yr ydym yn byw ynddi? Mae'n debyg bod 400 biliwn o sêr yng ngalaeth ein Llwybr Llaethog yn unig, ac amcangyfrifwyd bod dros 100 biliwn o alaethau yn y bydysawd.

Nawr, yn Salm 8 ysgrifennodd y Brenin Dafydd: "Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a roddaist yn eu lle, beth yw meidrolyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?" Mae'r adnodau hyn yn dweud wrthym fod Duw wedi gosod yr holl fydsawd yn ei le a'i fod yn ei ddal yn yr un modd ag y byddech chi neu fi'n dal lens cyffwrdd ar ein bys.

Sut ydym ni'n gwybod ein bod yn bwysig i Dduw, a'i fod yn "cofio" am bobl? Wel, nid yw'r Duw anferth ac anhygoel hwn yn poeni am y sêr a'r planedau'n unig. Ef hefyd a greodd y moleciwlau, y niwtronau a'r protonau. Gwnaeth 75,000 milltir o bibellau gwaed yn y corff dynol sy'n cario gwaed i dros 60 triliwn o gelloedd. Yn y gno cell y coed creodd bad tebyg i sbwng rhwng y pig a'r pen er mwyn iddi beidio llorio'i hun pan mae'n drilio twll. Efallai nad yw hynny'n bwysig i chi, ond mae'n bwysig iawn i'r gno cell y coed!

Ond beth yw eich darlun *chi* o Dduw? Beth ydych chi'n ei feddwl ohono? Beth yw eich cwestiynau mawr? Rydym eisiau i chi ddechrau trafod yn eich grwpiau nawr a hoffem wybod tri pheth:

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Beth yw eich enw?**
- **Pam ydych chi yma?**
- **Pe baech yn gallu gofyn un cwestiwn i Dduw, gan wybod y byddai'n cael ei ateb, beth fyddai'r cwestiwn?**

O ran yr ail gwestiwn - "Pam ydych chi yma?" - nid yw'n golygu "rwy'n ddarn o DNA sy'n sownd yn y bydysawd." Ond yn hytrach, "Sut y daethoch i fod yma heno?"

O ran y trydydd cwestiwn, mae yna ffilm dda gan John Travolta lle mae rhywun yn dweud wrtho: "Os yw fy atebion yn dy ddychryn, rho'r gorau i ofyn cwestiynau dychrynlyd."

Wel, dydyn ni ddim yn ofni cwestiynau dychrynlyd. Efallai bod cwestiwn o'r fath wedi bod ar eich meddwl ers amser maith. Felly byddwch yn onest a pheidiwch â dal yn ôl.

Os trowch chi i dudalen 8 yn eich *Llawlyfr Astudio*, mae yna le i ysgrifennu eich ateb i'r cwestiwn hwn.

> Caniatewch 15 munud i'r grwpiau drafod y cwestiynau hyn, gan egluro y bydd rhagor o amser i drafod nes 'mlaen.

lawn, diolch pawb. Dydw i ddim yn gwybod beth yw eich cwestiynau: gall rhai ohonynt fod yn bersonol iawn, eraill yn eithaf academaidd, ond gobeithio y byddwn yn gwneud rhywfaint o gynnydd gyda nhw. Os ydynt yn bwysig i chi, maent yn bwysig i ni.

Credaf ei bod yn deg dweud bod dau beth sylfaenol y tu ôl i gwestiynau'r rhan fwyaf o bobl: i ddechrau, a oes Duw? Ac yn ail, os oes Duw, sut un yw ef, hi?

Nawr, yn ôl arolygon barn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod yna Dduw. Ond yr hyn sy'n eu drysu yw, "Os oes yna Dduw, sut alla i wybod sut un ydyw, a sut ydw i fod i ymwneud ag ef?"

Gwnaeth y cwestiwn hwnnw beri anhawster mawr i mi am gyfnod hir. Pan oeddwn yn blentyn, roedd fy mam yn arfer mynd â ni i'r capel weithiau ac roeddwn i'n gweld y lle'n ddiflas. Os oeddwn i fod i ymwneud â Duw mewn rhyw ffordd, doeddwn i ddim yn gallu gweld beth yn y byd oedd gan y capel i'w wneud â'r peth. Roeddwn i wedi diflasu gymaint, gallaf gofio eistedd yno'n cyfri'r brics ar y wal.

Efallai eich bod wedi trio ymwneud â Duw yn y gorffennol trwy fynd i'r capel, ond am ba reswm bynnag, roeddech yn gweld y capel yn ddiflas, felly'r argraff sydd gennych o Gristnogaeth yn gyffredinol nawr yw ei bod yn ddiflas.

Neu efallai eich bod yn meddwl bod y Beibl yn amherthnasol. Wedi'r cyfan, cafodd ei ysgrifennu 2,000 o flynyddoedd yn ôl a 2,000 o filltiroedd i fwrdd. Pa berthnasedd sydd gan y Beibl i ni?

Roeddwn i'n meddwl mai dim ond llyfr o reolau oedd y Beibl. A dweud y gwir roedd yn ymddangos mor amherthnasol i mi fel fy mod yn ceisio diddori fy hun yn y dosbarthiadau addysg grefyddol trwy geisio gwneud y Beibl yn berthnasol. Treuliais fy amser yn chwilio am gyfeiriadau at rygbi a phêl-droed. Yr un yr oeddwn yn arbennig o falch ohono oedd lle mae Ioan pennod 9, adnod 1 yn siarad am ddyfarnwyr: "d[d]yn dall o'i enedigaeth."

Neu efallai eich bod yn meddwl mai celwydd yw Cristnogaeth.

Roeddwn i'n meddwl bod y cyfan yn fyd dychmygol a oedd yn perthyn i'r feithrinfa, felly roedd Iesu'n cerdded ar y dŵr, y tri gŵr doeth, porthi'r pum mil, Siôn Corn a Winnie the Pooh i gyd wedi'u cymysgu yn fy meddwl.

Ond caiff yr holl ragdybiaethau hyn eu chwalu gan un adnod yn y Beibl. Edrychwch ar Marc pennod 1, adnod 1. Cewch hyd iddo ar dudalen yn eich Beibl.

> Agorwch eich Beibl eich hun a darllenwch yn uchel ohono.

Mae'n dweud: "Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw."

Felly nid yw Cristnogaeth yn bennaf am:

- fynd i'r capel,
- ufuddhau i reolau,
- neu gael eich bedyddio.

Ac nid yw am:

- adeiladau hardd,
- neu Dduw sy'n gweld mai ei unig nod mewn bywyd yw fy rhwystro rhag cael hwyl.

Na, mae Cristnogaeth am Iesu Grist. Mae'r gair "efengyl" yn golygu "newyddion da," felly mae Marc pennod 1, adnod 1 yn dweud wrthym fod yr efengyl - y newyddion da, Cristnogaeth - i gyd am Iesu Grist. Nid yw Marc pennod 1, adnod 1 yn dweud dechrau'r efengyl am gadw rheolau a bod yn drist. Na, mae'n dweud dechrau efengyl Iesu Grist.

Nid yw chwaith yn ddechrau efengyl am "daflu eich ymennydd allan o'r ffenestr." Nid oes raid i chi roi heibio'ch cynneddfau meddyliol i gredu yn Iesu, oherwydd mae'n berson go iawn a wnaeth fyw, cerdded a siarad yn hanes dynolryw. Mae'n rhywun y gellir ymchwilio iddo.

Felly yn ôl i'r cwestiwn: "Sut alla i wybod sut un yw Duw a sut ydw i fod i ymwneud ag ef?" Un o'r pethau arbennig am Iesu Grist yw, unwaith yr ydym yn edrych arno, mae'r holl ddyfalu am Dduw yn peidio. Oherwydd mae'r Beibl yn dweud bod Duw wedi dangos i ni sut un ydyw trwy anfon ei Fab, Iesu Grist. Mae Colosiaid pennod 1, adnod 15 yn dweud mai Iesu yw "delw'r Duw anweledig."

Dychmygwch eich bod eisiau dod i adnabod y Frenhines yn bersonol:

- gallech ysgrifennu llythyr ati;
- gallech ffonio Palas Buckingham;
- neu gallech sefyll y tu allan i'w giatiau gydag arwydd mawr yn gofyn iddi ddod am ginio gyda chi.

Ond wrth gwrs ni fydddech chi'n mynd yn bell iawn wrth ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau hyn. Eich unig siawns o ddod i'w hadnabod fyddai pe bai hi'n dod allan i'ch cyfarfod chi. A dyna beth mae'r Beibl yn ei ddweud y mae Duw wedi'i wneud trwy anfon ei Fab, Iesu Grist. Mae Duw eisiau cyflwyno ei hun i ni, ac Iesu yw'r ffordd y mae dewis gwneud hynny.

Rwy'n siŵr eich bod wedi cael y profiad o gerdded i lawr y stryd fawr mewn dinas brysur ac anwybyddu rhywun sy'n ceisio rhoi taflen i chi - neu eich bod wedi cymryd y daflen ac yna'i hanwybyddu - oherwydd nad ydych yn credu y bydd yn gwneud unrhyw ddaioni i chi. Wel, cynhaliodd papur newydd yr *Evening Standard* arbrawf. Gwnaethant ofyn i ddyn sefyll y tu allan i orsaf Oxford Circus yn cynnig taflenni i bobl. Roedd y daflen yn cynnig £5 yn rhad ac am ddim i'r sawl a oedd yn dod â'r daflen yn ôl i'r dyn. Gwnaeth nifer fawr o bobl ei basio, ac mewn tair awr dim ond un ar ddeg o bobl ddaeth nôl am y £5. Roedd pobl yn tybied eu bod yn gwybod beth oedd y dyn yn ei rannu ac na fyddai'n gwneud unrhyw ddaioni iddynt, felly ni wnaethant drafferthu ei gymryd na'i ddarllen.

Rwy'n apelio arnoch i beidio â gwneud yr un camgymeriad â'r Beibl, oherwydd y Beibl yw'n prif ffynhonnell o wybodaeth am Iesu. Os ydych eisiau darganfod sut un yw Duw a sut yr ydych i fod i ymwneud ag ef, y Beibl yw'r unig beth sydd ei angen arnoch.

> [Daliwch Feibl i fyny.](#)

Ond, fel unrhyw berthynas, bydd hyn yn cymryd amser. Rydym yn byw mewn oes o bethau parod:

- Credyd parod;
- Coffi parod;
- Cyfathrebu parod.

Ond nid yw perthnasau'n bethau parod. Maent yn cymryd amser. Peidiwch â dweud, "Rhois gynnig arni am un wythnos ond wnaeth o ddim gweithio." Rwy'n gwybod, i lawer ohonoch, bod amser yn werthfawr iawn. Mae'r taer bob amser yn elyn i'r pwysig. Felly gofynnwn i chi roi o'ch amser i ystyried y pethau hyn.

➤ *Ar gyfer yr enghreifftiau canlynol, defnyddiwch lyfrau a phobl sy'n briodol i'ch cyd-destun chi ac, os yw'n bosibl, dangoswch unrhyw lyfrau yr ydych yn cyfeirio atynt.*

Teitl hunangofiant Bob Geldof yw *Is That It?*. Ar un adeg roedd newydd godi £50 miliwn ar gyfer Live Aid ac, wrth eistedd ar y llwyfan, clywodd gefnogwr yn gweiddi 'Is that it?' Dywed Geldof, "Dyma gwestiwn yr wyf yn gofyn i mi fy hun o hyd." Mewn cyfweiliad â Mick Brown ar gyfer papur newydd *The London Times* darllenwn: "Gofynnwch i Geldof a yw'n teimlo bod ei fywyd yn gyflawn, ac mae'n chwethin. 'Dim o gwbl. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddai hynny'n ei olygu. Rwy'n anghyflawn fel bod dynol; fel arall, pam mae'r tyllau mawr 'ma yma?' Mae'n taro ei frest. 'Rwy'n gwneud popeth oherwydd fy mod yn ofni syrffedu, oherwydd rwy'n gwybod mai dyna sydd i lawr y tyllau hynny. Rwy'n ofni'r peth; mae'n fy ngwneud yn ddigalon iawn. Felly rwy'n ceisio bod yn weithgar. Yn wyllt o weithgar yn anffodus. A'r "gorffwylledd" hwn sy'n fy nghadw i fynd trwy'r amser ac mae'n galluogi i mi feddwl nad wyf yn gwastraffu fy amser.'"

Enw llyfr y comediwr o Awstralia, Barry Humphreys, yw *More Please*. Mae'n ysgrifennu, "Roeddwn i bob amser eisiau mwy. Doedd gen i byth ddigon o laeth, arian, hosanau, rhyw, gwyliau, argraffiadau cyntaf, unigedd, recordiau gramoffon, prydau am ddim, ffrindiau go iawn, pleser dieuog, teis, cymeradwyaeth neu gariad diamheuol... Wrth gwrs, rwyf wedi cael mwy na fy siâr o'r rhan fwyaf o'r pethau hyn, ond roedd bob amser yn rhoi teimlad anghyflawn i mi: lle'r oedd y gweddill?"

Mae'n anhygoel pa mor gryf yw'r thema o anfodlonrwydd, o fod eisiau rhywbeth arall, o fod yn anghyflawn, mewn cerddoriaeth, ffilmiau a llenyddiaeth. Ym mhob man rydym yn gweld pobl sy'n:

- gosod eu targedau;
- eu cyflawni;
- teimlo gorfoledd am gyfnod;
- ac yna teimlo gwacter unwaith eto.

Felly maent yn gosod rhagor o dargedau i lenwi'r gwacter, ac mae'r cylch yn dechrau eto. Ond mae rhywbeth yn dal i fod ar goll. Mae'n ymddangos nad yw cyflawniad parhaol yn dod, yn syml, trwy gael yr hyn yr ydym ei eisiau. Mae rhan ohonom yn parhau i fod yn anfodlon.

Gofynnwyd i Thom Yorke, o'r band Radiohead, pam yr oedd yn parhau i wneud cerddoriaeth, er ei fod eisoes wedi cyflawni'r llwyddiant yr oedd wedi'i obeithio amdano. Dywedodd, "Mae'n llenwi'r twll. Dyna'r unig beth y mae unrhyw un yn ei wneud." Pan ofynnwyd, "Beth sy'n digwydd i'r twll?" oeddodd Yorke am amser hir cyn ateb: "Mae'n dal yno."

Yn y ffilm *The Matrix*, mae Morpheus yn dweud wrth Neo: “Gad i mi ddweud wrthyt ti pam wyt ti yma. Oherwydd dy fod yn gwybod rhywbeth. Allti di ddim esbonio'r hyn yr wyt yn ei wybod, ond rwyt yn ei deimlo. Rwyt ti wedi ei deimlo trwy gydol dy fywyd. Mae rhywbeth o'i le ar y byd. Dwyt ti ddim yn gwybod beth ydyw ond mae yno, fel fflewyn yn dy feddwl sy'n dy yrru'n wallgof.”

Gwnaeth Augustine grynhoi'r broblem 1,500 o flynyddoedd yn ôl pan ysgrifennodd am Dduw, “rwyt ti wedi ein creu ar dy gyfer dy hun, ac mae ein calon yn aflonydd nes ei bod yn gorffwyso ynot ti.” Ydy Augustine yn iawn?

Gofynnwn i chi roi amser i ddarganfod hyn.

AR DDIWEDD Y SGWRS

Hoffwn ddiweddu trwy ofyn y cwestiynau canlynol i'ch grwpiau:

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Beth yw eich barn chi am Gristnogaeth?**
- **Sut ydych chi'n teimlo am roi amser i ddarllen Marc?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grŵp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFDAETH

Dyma ddiwedd “swyddogol” y noson, ond mae croeso i chi barhau i drafod os hoffech.

Ewch â'r Beibl a'r *Llawlyfr Astudio* gyda chi. Bob wythnos, hoffem eich gweld yn edrych ar rai penodau ym Marc cyn i ni gwrdd eto. Bydd yr adran ASTUDIO GARTREF yn eich *Llawlyfr Astudio* yn eich helpu i wneud hyn. Erbyn diwedd Wythnos 6, byddwch wedi darllen trwy Efengyl Marc i gyd.

Diolch eto am ddod. Gweithiwch trwy'r adran ASTUDIO GARTREF ar gyfer Wythnos 1 cyn y tro nesaf, a gobeithio y gwelwn ni chi bryd hynny.